

Môr-Leidr ym Môn

Parhad o dudalen 2

unwaith eto fel canlyniad i'r creulondeb hwnnw, ac iddi fod yn wael am gyfnod hir iawn ym Mrynddu. Ni fu Fortunatus ar ei chyfyl am fisoedd, ond yn ystod 1742 daeth i'w hebrwng adref i Lerpwl. Ysyaeth ni fu iddynt gyrraedd gyda'i gilydd. Ymddengys iddynt gweryla ar y ffordd ac ymwahanu. Sut a pha fodd y digwyddodd hynny nid yw'n hysbys ond ei gadael ar y cei ym Miwmares wnaeth Fortunatus a mynd yn ôl i Lerpwl ar ei ben ei hun. Ni wyddys yn iawn beth ddigwyddodd wedyn, ond dywed y sgweiar yn ei ddyddlyfr iddo gael hyd iddi ym Miwmares a rhoi pum punt iddi cyn ffarfelio â hi. Efallai iddi fynnu dychwelyd gyda'i gwŷr yn groes i'w ddyuniadau ef ac iddo ddigio peth wrthi am hynny. Ond y gwir yw, mae'n debyg, iddo gael mwy na llond ei fol arni hi a'i helyntion a'i chwyon parhaus.

Mae'n amlwg, o gofio mai Capten llong oedd ei dad fod Fortunatus o dras morwrol a'r heli yn ei waed. Ar garreg fedd ei dad yn Lerpwl ceir arysgrif sy'n cofnodi ei ddewdr wrth amddiffyn ei llong oddi wrth ymosodiad dwy long oedd yn fwy a chryfach na'i long ef. Felly, nid môr-leidr yn llinach Bluebeard neu Clegg ydoedd ein harwr. Ymdebygai yn fwy i enwogion fel Francis Drake neu eraill o wroniaid morwrol oes Elizabeth, neu a throai at Gymru i Domos Prys o Blas Iolyn neu Prys Gruffydd o'r Penrhyn i enwi ond dau. Fel y gwyddys, morwyr anturus oeddent yn heigio'r moroedd am drysor ac yn barod iawn i ymosod ar longau'r gelyntion traddodiadol fel Ffrainc neu Sbaen, pa'r un bynnag a oedd hi yn rhyfel swyddogol rhwng Prydain a hwy ai pheidio. Efallai y buasai eu dechrau fel preifateiddwyr yn decach na rhoi'r teitl 'môr-ladron' fel y cyfryw, ond ni chredaf fod cymaint o wahaniaeth a hynny rhyngddynt ychwaith. Yn wir, cymaint oedd arswyd Fortunatus ar ei elynion pan oedd yn anterth ei nerth, fel y bu i frenin Ffrainc gynnig teitl a phensiwn o 30,000 louire a rheolaeth ar ddwy long ryfel i bwy bynnag a allai ei ddal, yn fyw neu'n farw. D'oes ryfedd i Tobias Smollet ei alw'n 'brave corsair' yn ei lyfr ar hanes Lloegr.

Tua 1742, gwerthodd Fortunatus y busnes bragu a etifeddodd ar ôl ei dad a chychwyn ar ei anturiaethau o ddiifri. Nid oedd ganddo y diddordeb lleiaf mewn bragu ac eglur yw nad oedd ganddo fawr o ddiddordeb yn ei deulu chwaith. Gadawyd i Mary a'r



Brynddu yn 1931

plant i gymryd ei siawns orau medrent. Cawn ef yn yr Eidal tua chanol y flwyddyn honno. Edrydd Syr Horace Mann yr Ynad Prydeinig yn Llys Tuscany, am rhyw wallgofddyn o Sais oedd wedi ceisio gwarchae ac ennill dinas Lucca a'r wlad oddi amgylch, ac i'r awdurdodau yn y fan honno gael trafferth mawr i'w ddal. Fortunatus oedd y gwŷr hwnnw. Carcharwyd ef am ei feiddgarwch a phan gafodd ei ryddhau, rhoddwyd rhybudd caeth iddo nad oedd i ddychwelyd i'r parthau hynny byth wedyn.

Ar ôl y digwyddiad hynod yna, cawn ei hanes yn Leghorn yn gapten ar y llong Swallow a oedd yn hwylio rhwng Llundain a Lisbon. Fe sonnir am rhyw gapten Wright a gafodd ei gymryd yn garcharor gan y Sbaenwyr. Pwy allasai hwnnw fod tybed, ond yr anfarwol Fortunatus dan enw arall. Sut daeth yn rhydd? Nid oes a wypo, ond yn rhydd y daeth, oherwydd yn 1744 pan aeth Sbaen a Lloegr i ryfel â'i gilydd yn swyddogol, cawn ei hanes yn gapten ar y brigantin *Fame*, enw cwbl addas pan ystyriwn enwoced ei enw trwy'r byd erbyn hyn. Efe, yn ddiau a ystyrir y preifateiddwr o'r holl breifateiddwyr. Erbyn 1746, enillasai un ar bymtheg o longau yn perthyn i Ffrainc a oedd yn werth £400,000 – swm enfawr yr adeg honno. Adroddwyd ei hanes mewn dau gylchgrawn pwysig, sef y *London Gazette* a'r *Gentlemen's Magazine*. Mae'n sicr iddo gael cyfran helaeth o'r cyfoeth, ond nid oes sôn i Mary ei wraig dderbyn yr un geiniog goch ohono. Dal i anfon i'w thad am gymorth ariannol a wnâi hi drwy gydol amser campau morwrol ei gwŷr.

Yn 1746, syrthiodd Fortunatus dros ei ben a'i glustiau i drwbwl unwaith eto. Daliasai'r *Fame* y llong Ffrengig ag eiddo ar ei bwrdd a oedd yn perthyn i Dywysog Campo Florida. Trwy orchymyn caeth Siôr yr Ail, brenin Lloegr, nid

gwiw oedd i unrhyw long Brydeinig ymosod arni rhag achosi ychwaneg o elyniaeth rhwng y ddwy wlad, eithr nid adawyd i rhywbeth bach felly lesteirio dim ar Fortunatus. Ymosododd arni a'i hennill. Fel pe bai hynny heb fod yn ddigon, cwynodd yr awdurdodau yn Leghorn yn fuan iawn wedyn fod eiddo yn perthyn i Ymerodraeth Twrci wedi cael ei ddwyn oddi ar fwrdd un o longau Ffrainc gan berchennog y llong *Fame* ac wedi ei werthu fel ysbail. Bu halibalw mawr a gorchmynwyd i Fortunatus roi'r arian yn ôl i'w wir berchennog, ond gwrthododd yn bendant. Y canlyniad fu iddo gael ei garcharu am chwe mis. Pan ryddhawyd ef, cafodd orchymyn i ddychwelyd i Brydain, ond gwrthod wnaeth ein harwr ac yn hytrach, arhosodd yn Leghorn.

Er yr holl firi i gyd ac yntau yn dal i drin ei wraig fel baw, daliai sgweiar y Brynddu yn deyrngar iddo drwy'r cwbl. Anodd yw deall hyn. Yn wir, ysgrifenna'r sgweiar yn ei ddyddiadur, *Paid one half penny for nails to fasten in a frame the picture of the Fame, privateer, a ship of Mr. Wright*. Rhyfedd o fydd! Tybed a oedd gan yr hen sgweiar siar yn y busnes? Un peth sydd yn hollol sicr – os nad oedd Fortunatus yn boblogaidd gyda'r awdurdodau, roedd yn arwr yng ngolwg gwerin gwlad ac yn arbennig felly yng ngolwg ei dad yng nghyfraith.

Yn 1752 cawn y sgweiar yn anfon £300 o bunnau i Mr. Wright (swm sylweddol iawn yn yr oes honno), mewn ateb i'w gais am gymorth ariannol. Gan nad oedd gan y sgweiar mo'r arian wrth law yn hwylus, bu'n rhaid iddo fenthyca gan un Mr. Meyrick, ei gymydog, yn ôl llog o £15 y flwyddyn. Pwy oedd y Mr. Meyrick hwn tybed? Efallai mai un o deulu'r Meyricks, Plas Bodorgan, Môn ydoedd. Roedd digon o arian ganddynt hwy fel un o dirfeddianwyr mwyaf yr Ynys. Addawsai Fortunatus dalu'r arian yn ôl o fewn chwe mis. Am obaith! Yn ei

ddyddlyfr edrydd y dyddiadurwr fel y bu iddo dalu'r llog i Mr. Meyrick ei hun, a maes o law y cyfalaf hefyd o'i boced ei hun. Ymddengys nad oedd y gair 'anrhydedd' mewn materion ariannol, beth bynnag, yng ngeirfa'r 'brave corsair'. Teg yw gofyn pa beth a ddaeth o'i holl gyfoeth a enillasai oddi ar longau'r gelyn? Ni wŷr neb, ond gallwn ddyfalu mai ei wario ar win, merched a gamblo a wnaeth, yn ôl ei arfer.

Nid yn hollol ddiegwyddor chwaith erbyn gweld, oherwydd yn 1755 cofiodd Fortunatus am ddiddordeb William Buckley mewn garddio, ac anfonodd blanhigion iddo o Leghorn – gwreiddiau math arbennig o gyr a choed cypress. Ond yn anffodus, cawsant eu niweidio ar y fordaith ac erbyn iddynt gyrraedd porthladd Caergybi, nid oeddent yn werth eu cael, ond bu rhaid i'r hen sgweiar dalu 8 swllt o doll arnynt, a oedd yn llawer mwy na'u gwerth. Ond chwarae teg i Fortunatus, roedd ei fwriad yn eithaf teilwng. Yn 1756, oherwydd rhyw anghydfod, colodd Fortunatus ei swydd fel capten y *Fame* a bu rhaid iddo adeiladu llong newydd iddo'i hun yn Leghorn, sef llong llai ac yn dwyn yr enw *St George*. Ffarweliodd unwaith eto â'i wraig a'i deulu bach, gan eu gadael i gymryd eu siawns gorau y medrent, yn dlawd ac yn ddiymgeledd. Ni bu Fortunatus yn hir cyn dechrau ymosod ac ennill amryw o longau bach a mawr, ac yn arbennig felly yn cario criw o 280 o longwyr ac 16 o ynnau, ac er iddo fod unwaith eto mewn sgarmes â'r awdurdodau yn Leghorn (oedd, yn gyfrinachol, o blaid y Ffrancwyr) a chael ei restio. Ond rhywfodd, enillodd y dydd arynt a rhyddhawyd ef i barhau ei ymosodiadau ar longau'r gelyn. Fodd bynnag, mae'n eglur na fu iddo ennill unrhyw gyfoeth iddo'i hun fel canlyniad i hynny gan i Mary Wright anfon llythyr torcalonnus

parhad ar dudalen 19